Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Corff Plismona Lleol Etholedig Dyfed-Powys**

**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

**COD YMDDYGIAD**

## 1. Cyflwyniad

1. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i mi yn swydd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wrth weithredu neu gynrychioli i weithredu yn y rôl hwnnw. Yn ogystal, mae'n berthnasol i'm dirprwy wrth weithredu neu gynrychioli i weithredu yn y rôl hwnnw.
2. Nid yw'r cod hwn yn berthnasol pan wyf yn gweithredu mewn capasiti preifat.
3. Rwyf wedi mabwysiadu'r cod hwn ac wedi cytuno i lynu wrth ei ddarpariaethau.
4. Mae'r Protocol Plismona[1] yn darparu y bydd pob parti'n glynu wrth y saith egwyddor a osodir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus: Adroddiad Cyntaf y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus a elwir yn — Egwyddorion Nolan.
5. Rwy'n cytuno i lynu wrth yr "Egwyddorion Nolan" a osodir isod:

### SAITH EGWYDDOR BYWYD CYHOEDDUS

**YMDDYGIAD ANHUNANOL**

Mewn swydd gyhoeddus dylid gwneud penderfyniadau ar sail lles cyhoeddus yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn elw ariannol nac unrhyw elw materol arall iddynt eu hunain, i'w teuluoedd na'u cyfeillion.

**GONESTRWYDD**

Ni ddylai unrhyw rai sy'n dal swydd gyhoeddus eu rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae ganddynt ymrwymiad ariannol nac ymrwymiad o unrhyw fath arall i unigolion na mudiadau allanol, a allai ddylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

**GWRTHRYCHEDD**

Wrth gyflawni dyletswyddau cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu cytundebau neu argymell unigolion am wobrau a manteision, dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus wneud dewisiadau o'r fath ar sail teilyngdod.

**ATEBOLRWYDD**

Mewn swydd gyhoeddus mae person yn atebol i'r cyhoedd am benderfyniadau a gweithredoedd, a rhaid felly cydymffurfio ag unrhyw archwiliad sy'n addas i'r swydd.

[1] Y Gorchymyn Protocol Plismona 2011 Rhif 2744

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

**YMDDYGIAD AGORED**

Mewn swydd gyhoeddus rhaid bod mor agored â phosibl am bob penderfyniad a gweithred. Rhaid rhoi rhesymau am benderfyniadau, a chadw gwybodaeth yn ôl yn unig pan fydd buddiannau cyhoeddus ehangach yn amlwg yn mynnu hynny.

**GONESTRWYDD**

Mewn swydd gyhoeddus mae'n ddyletswydd ar berson i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat yn ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus, ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro, a hynny mewn modd sy'n gwarchod buddiannau'r cyhoedd.

**ARWEINIAD**

Dylai'r sawl sydd mewn swydd gyhoeddus hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweiniad ac esiampl.

## 2. <u>Dyletswyddau Cyffredinol</u>

Rwy'n cytuno:-

1(a) I drin eraill ag urddas a pharch.

(b) I beidio â defnyddio ymddygiad bwlio nac aflonyddu unrhyw berson.

(c) I beidio â chynnal fy hun mewn modd sydd:-

(i) yn groes i'r protocol plismona

a/neu

(ii) y gellir cael ei ystyried, o fewn rheswm, yn ymddygiad sy'n dwyn anfri ar fy swydd.

## 3. <u>Defnyddio Adnoddau</u>

Rwy'n cytuno:-

1 I beidio â defnyddio adnoddau'r corff plismona lleol etholedig er mwyn fy elw personol nac er fy mudd fy hun, fy ffrindiau, neu unrhyw berson arall mewn perthynas â'm buddiannau busnes.

2 I beidio â defnyddio adnoddau'r corff plismona lleol etholedig mewn modd amhriodol at ddibenion gwleidyddol (gan gynnwys pleidiau gwleidyddol).

3 I hawlio treuliau a lwfansau yn unol â chynllun treuliau a lwfansau cyhoeddedig y corff plismona lleol etholedig yn unig.

## 4. <u>Cofrestr Buddiannau Datgeladwy</u>
**(gan gynnwys y rheiny sy'n codi mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch a'r rheiny o natur ariannol)**

Rwy'n cytuno:-

1. I weithredu er lles y cyhoedd, ac wrth arfer swyddogaethau fy swydd, peidio â gweithredu er mwyn ennill buddion ariannol nac unrhyw fuddion eraill i mi fy hun, fy nheulu, fy ffrindiau, neu unrhyw berson arall mewn

perthynas â'm buddiannau busnes, neu ddefnyddio neu geisio defnyddio fy swydd er mwyn rhoi neu ddiogelu unrhyw fantais neu anfantais i unrhyw berson, gan gynnwys fy hun.

2. O fewn 28 diwrnod ar ôl cychwyn fy swydd, cofnodi pob buddiant datgeladwy yn y gofrestr buddiannau datgeladwy, sydd yn cael ei gynnal gan swyddog monitro'r corff plismona lleol etholedig, fel y gosodir yn yr Atodlen.
3. O fewn 28 diwrnod yn dilyn unrhyw newid mewn amgylchiadau, cofnodi'r newidiadau mewn amgylchiadau yn y gofrestr buddiannau datgeladwy i'r graddau y mae'n ymwneud â buddiannau datgeladwy.
4. Os yw natur y buddiant yn gyfryw fel fy mod i a'r Swyddog Monitro'n ystyried y gallai datgelu arwain ataf i neu berson sy'n gysylltiedig â mi i ddioddef trais neu erledigaeth, yna ni ddylai cofnod yn y gofrestr gynnwys manylion y buddiant, ond dylai nodi fod buddiant wedi'i ddatgelu ac yn cael ei gadw'n ôl yn rhinwedd yr adran hon.

**5. <u>Buddiannau sy'n gwrthdaro</u>**

Mewn unrhyw achos lle y gallai buddiannau arfer swyddogaethau fy swydd wrthdaro ag unrhyw fuddiant datgeladwy neu fuddiant arall, sydd wedi dod yn hysbys i mi, byddaf yn datgan gwrthdaro o'r fath mor fuan ag sy'n bosibl yn unol â'r polisi a gyhoeddir o dan Baragraff 6 o'r Gorchymyn Corff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011 a phennu a yw'r gwrthdaro buddiannau mor sylweddol fel na ddylai'r swyddogaeth gael ei arfer yn bersonol, ond ei ddirprwyo neu ei drin mewn modd arall er mwyn sicrhau nad yw'r gwrthdaro buddiannau'n codi.

**6. <u>Datgelu gwybodaeth</u>**

1. Rwy'n cytuno i beidio â datgelu gwybodaeth sy'n cael ei darparu i mi yn gydgyfrinachol neu wybodaeth sydd o natur gyfrinachol yr wyf yn ei chaffael, oni bai fod gennyf ganiatâd person awdurdodedig i'w rhoi neu ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i mi wneud hynny neu at ddibenion cyfreithiol fy swydd ar yr amod na fyddaf yn cael fy rhwystro rhag datgelu i drydydd parti at ddiben cael cyngor cyfreithiol proffesiynol lle y mae'r trydydd parti'n cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth i unrhyw berson arall;

2. Bydd unrhyw ddatgeliad a wnaf yn rhesymol, er lles y cyhoedd ac yn cael ei wneud yn ddidwyll.

3. Rwy'n cytuno i beidio â rhwystro person arall rhag cael mynediad at wybodaeth y mae hawl gan y person hwnnw ei chael yn ôl y gyfraith.

**7. <u>Tryloywder</u>**

Bydd y gofrestr buddiannau a'r gofrestr rhoddion a lletygarwch yn cael eu cyhoeddi ar wefan y corff plismona lleol etholedig.

## 8. Cwynion

Bydd unrhyw gwyn am ymddygiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael ei chyfeirio at Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

LLOFNOD: 

DYDDIAD: 19/03/2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.